# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 8 MAI 2024

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr: S.A.Knoyle, N.Jenkins, J.Hurley, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths, S.Jones a/ac C.Phillips

**Swyddogion yn bresennol:**

K.Jones, A.Jarrett, N.Pearce, N.Daniel, H.Jones, C.Griffiths, C.Saunders, C.Barnard, A.Thomas, P.Chivers a/ac T.Davies

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Llewelyn yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Cabinet, a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2024, yn gofnod cywir.

5. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

6. **PWLL NOFIO PONTARDAWE**

Trafododd yr aelodau y diwygiad a gynhigiwyd gan y Pwyllgor Craffu cynt, a oedd yn awgrymu ychwanegu'r geiriau ychwanegol at ddiwedd Argymhelliad 4:

*'... ac i ymrwymo, pan fydd adnoddau'n caniatáu, y bydd pwll sy'n gwasanaethu ardal gyfan Cwm Tawe uchaf, Cwm Aman a Chwm Llynfell yn cael ei adeiladu.'*

Rhoddodd Aelodau’r Cabinet ddiolch i'r Pwyllgor Craffu am eu mewnbwn ond dewisodd beidio â mabwysiadu'r diwygiad.

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Nodi statws presennol Pwll Nofio Pontardawe, a'r rhesymau dros y camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd ar sail rhwymedigaethau iechyd a diogelwch ar ran y Cyngor.

2. Cymeradwyo cynllun arfaethedig i gau Pwll Nofio Pontardawe erbyn diwedd mis Awst 2024, yn amodol ar unrhyw drefniadau cau y mae eu hangen yn y tymor byr er mwyn bodloni rhwymedigaethau iechyd a diogelwch.

3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Natur, Twristiaeth a Lles, ddechrau ar raglen gynnwys gyda defnyddwyr y gwasanaeth ac awdurdodau cyfagos i archwilio ffyrdd o gefnogi mynediad parhaus at gyfleusterau nofio.

4. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Natur, Twristiaeth a Lles, gomisiynu astudiaeth dichonoldeb i ymchwilio i opsiynau ar gyfer safle yn y dyfodol, a chyllid posib ar gyfer cyfleuster newydd.

5. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Natur, Twristiaeth a Lles, fod yn gyfrifol am ddymchwel Pwll Nofio Pontardawe.

6. Defnyddio'r arbedion arfaethedig sy'n codi o gau'r cyfleuster, dros gyfnod o ddwy flynedd, i ariannu'r argymhellion a gynhwysir yn y cynnig hwn.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

I sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â defnyddwyr a staff Pwll Nofio Pontardawe, i gytuno ar drefniadau ar gyfer comisiynu astudiaeth dichonoldeb ar gyfer cyfleuster newydd, ac i geisio cymeradwyaeth i ddymchwel Pwll Nofio Pontardawe.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Gwnaed y penderfyniadau ar sail diogelwch y cyhoedd. Cynhelir rhaglen gynnwys helaeth gyda defnyddwyr presennol y gwasanaeth fel rhan o'r broses i ddarparu gwasanaeth ar gyfer cynifer o bobl â phosib yn safleoedd eraill CNPT. Mae Hamdden Celtic yn ymwybodol o'r trefniadau cau posib a byddant yn allweddol wrth reoli cyfathrebu â staff a newidiadau i'r rhaglen yng Nghanolfan Hamdden Castell-nedd.

## 7. SEFYDLU CYDBWYLLGOR GYDA CHYNGOR SIR PENFRO MEWN PERTHYNAS Â PHORTHLADDOEDD RHYDD CELTAIDD

**Penderfynwyd:**

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl o gael ei hystyried yng nghyfarfod heddiw.

## 8. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**